OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2017 Rhif 674 (Cy. 156)

2017 No. 674 (W. 156)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

IECHYD ANIFEILIAID

ANIMAL HEALTH

Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) (Diwygio) 2017

The Disease Control (Wales) (Amendment) Order 2017

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003 (O.S. 2003/1966 (Cy. 211)). Mae'n darparu ar gyfer unedau cwarantin i ddisodli'r esemptiad sydd eisoes yn bodoli o'r cyfnod segur o 6 diwrnod ar gyfer gwartheg, defaid a geifr sydd ar hyn o bryd yn cael ei ddarparu gan gyfleusterau ynysu.

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn egluro bod gofynion penodol sy'n ymwneud ag adrodd symudiadau a dogfennau symud bellach yn gymwys i geirw yn unig, ac mae'n gwneud mân newidiadau i adlewyrchu'r ffordd y mae ceidwaid yn adrodd ac yn gwneud datganiadau i gefnogi symud moch at ddibenion bridio.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order amends the Disease Control (Wales) Order 2003 (S.I. 2003/1966 (W. 211)). It provides for quarantine units to replace the existing exemption from the 6 day standstill period for cattle, sheep and goats currently provided by isolation facilities.

This Order also clarifies that certain requirements relating to the reporting of movements and movement documents now apply to deer only, and makes minor changes to reflect the way in which keepers report and make declarations in support of movements of pigs for breeding purposes.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, a Regulatory Impact Assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with this Order. A copy can be obtained from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2017 Rhif 674 (Cy. 156)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) (Diwygio) 2017

Gwnaed	*31 Mai 2017*
Yn dod i rym	*12 Mehefin 2017*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 1, 8(1) a 83(2) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**).

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) (Diwygio) 2017.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Mehefin 2017.

Diwygiadau i Orchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003

2. Mae Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(**1**) 1981 p. 22. Mae swyddogaethau o dan y Ddeddf yn arferadwy gan Weinidogion Cymru (o ran Cymru), yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004 (O.S. 2004/3044); ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) O.S. 2003/1966 (Cy. 211).

2017 No. 674 (W. 156)

ANIMALS, WALES

ANIMAL HEALTH

The Disease Control (Wales) (Amendment) Order 2017

Made	*31 May 2017*
Coming into force	*12 June 2017*

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of the powers conferred by sections 1, 8(1), and 83(2) of the Animal Health Act 1981(**1**).

Title, application and commencement

1.—(1) The title of this Order is the Disease Control (Wales) (Amendment) Order 2017.

(2) This Order applies in relation to Wales.

(3) This Order comes into force on 12 June 2017.

Amendments to the Disease Control (Wales) Order 2003

2. The Disease Control (Wales) Order 2003(**2**) is amended as follows.

(**1**) 1981 c. 22. Functions under the Act are exercisable by the Welsh Ministers (in relation to Wales) by virtue of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672); the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 2004 (S.I. 2004/3044); and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

(**2**) S.I. 2003/1966 (W. 211).

3. Yn erthygl 2 (dehongli)—

(a) yn y diffiniad o "lladd-dy" ("*slaughterhouse*"), yn lle "Rheoliadau Cig Ffres (Hylendid ac Archwilio) 1995" rhodder "Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006"(**1**); a

(b) yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "uned gwarantin" ("*quarantine unit*") yw cyfleuster neu safle a gymeradwywyd yn ysgrifenedig at ddibenion cwarantin gan gorff sydd wedi ei achredu gan Wasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig (UKAS);".

4. Yn erthygl 8 (cyfleusterau ynysu)—

(a) yn lle paragraff (1) rhodder—

"(1) Pan fydd moch yn cael eu cadw mewn cyfleuster ynysu o dan unrhyw un neu ragor o ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, a bod moch eraill yn cael eu symud i mewn cyn iddynt gael eu rhyddhau o'r cyfleuster ynysu, ni chaniateir i unrhyw fochyn gael ei symud o'r cyfleuster ynysu cyn y dyddiad rhyddhau diwethaf ar gyfer y moch diwethaf i gael eu symud i mewn i'r cyfleuster ynysu."; a

(b) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(3) Ni chaniateir defnyddio cyfleuster ynysu i gadw unrhyw anifeiliaid ac eithrio moch."

5. Ar ôl erthygl 8 mewnosoder—

"**Unedau cwarantin**

8A.—(1) Caniateir defnyddio uned gwarantin i gadw gwartheg, defaid a geifr yn unig.

(2) Pan fydd anifeiliaid yn cael eu cadw mewn uned gwarantin o dan unrhyw un neu ragor o ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, a bod anifeiliaid eraill yn cael eu symud i mewn cyn iddynt gael eu rhyddhau o'r uned gwarantin, ni chaniateir i unrhyw anifail gael ei symud o'r uned gwarantin cyn y dyddiad rhyddhau diwethaf ar gyfer yr anifail diwethaf i gael ei symud i mewn i'r uned gwarantin.

(3) Ni chaiff neb symud unrhyw anifail oddi ar safle yn uniongyrchol o uned gwarantin oni bai bod y symudiad yn un a bennir ym mharagraffau 1, 2, 4, 13 neu 14 o Atodlen 1.

(**1**) O.S. 2006/31 (Cy. 5).

3. In article 2 (interpretation)—

(a) in the definition of "slaughterhouse" ("*lladd-dy*"), for "the Fresh Meat (Hygiene and Inspection) Regulations 1995" substitute the "Food Hygiene (Wales) Regulations 2006"(**1**); and

(b) in the appropriate place insert—

""quarantine unit" ("*uned gwarantin*") means a facility or premises approved in writing for quarantine purposes by a body accredited by the United Kingdom Accreditation Service (UKAS);".

4. In article 8 (isolation facilities)—

(a) for paragraph (1) substitute—

"(1) Where pigs are held in an isolation facility under any provision of this Order, and other pigs are moved in before they are released from the isolation facility, no pig may be removed from the isolation facility before the last date of release of the last pigs moved into the isolation facility."; and

(b) after paragraph (2) insert—

"(3) An isolation facility may not be used to hold any animals other than pigs."

5. After article 8 insert—

"**Quarantine units**

8A.—(1) A quarantine unit may only be used to hold cattle, sheep and goats.

(2) Where animals are held in a quarantine unit under any provision of this Order, and other animals are moved in before they are released from the quarantine unit, no animal may be removed from the quarantine unit before the last date of release of the last animal moved into the quarantine unit.

(3) No person may move any animal off premises direct from a quarantine unit unless the movement is one specified in paragraphs 1, 2, 4, 13 or 14 of Schedule 1.

(**1**) S.I. 2006/31 (W. 5).

(4) Pan fydd Gweinidogion Cymru wedi cyflwyno hysbysiad i geidwad gwartheg sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo brofi unrhyw wartheg o'r fath am dwbercwlosis trwy gynnal prawf perthnasol cyn dyddiad a bennir yn yr hysbysiad, ni chaniateir cadw gwartheg mewn uned gwarantin na'u symud i mewn iddi ar ddyddiad y prawf perthnasol oni bai—

(a) bod prawf croen wedi ei roi i'r gwartheg hynny ddim mwy na 60 diwrnod cyn dyddiad y prawf perthnasol, a

(b) bod canlyniadau'r prawf wedi eu dehongli gan arolygydd milfeddygol neu filfeddyg cymeradwy a'u bod yn negyddol.

(5) Pan fydd prawf perthnasol am dwbercwlosis wedi ei roi i wartheg o'r fath fel a bennir mewn hysbysiad ym mharagraff (4) ond cyn i ganlyniad y prawf hwnnw gael ei ddehongli gan arolygydd, neu filfeddyg cymeradwy, caiff ceidwaid y gwartheg symud unrhyw anifail i mewn i uned gwarantin.

(6) Rhaid i geidwad gofnodi—

(a) symudiad anifail i mewn i uned gwarantin o fewn 24 awr i'r symudiad;

(b) symudiad anifail allan o uned gwarantin o fewn 3 diwrnod i'r symudiad; ac

(c) pob symudiad yng nghofrestr y daliad o fewn 36 awr i'r symudiad.

(7) Caniateir rhoi cymeradwyaeth i uned gwarantin yn ddarostyngedig i amodau a chaniateir ei hatal dros dro, ei diwygio neu ei dirymu ar unrhyw bryd drwy hysbysiad ysgrifenedig gan gorff sydd wedi ei achredu gan UKAS neu gan Weinidogion Cymru.

(8) Yn yr erthygl hon—

ystyr "cofnodi" ("*record*") yw hysbysu neu adrodd am symudiad anifail yn unol â Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007 neu Orchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2015;

ystyr "cofrestr y daliad" ("*holding register*") yw cofrestr at ddibenion Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007(**1**) neu Orchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2015(**2**);

(4) Where the Welsh Ministers have served on the keeper of cattle a notice requiring the keeper to have any such cattle tested for tuberculosis with a relevant test before a date specified in the notice, no cattle may be held in, or moved into, a quarantine unit on the date of the relevant test unless—

(a) a skin test has been applied to those cattle no more than 60 days before the date of the relevant test, and

(b) the results of the test have been read by a veterinary inspector or an approved veterinary surgeon and are negative.

(5) Where a relevant test for tuberculosis has been applied to such cattle as specified in a notice in paragraph (4) but before the result of that test has been read by an inspector, or an approved veterinary surgeon, the keeper of the cattle may move any animal into a quarantine unit.

(6) A keeper must record—

(a) movement of an animal into a quarantine unit within 24 hours of the movement;

(b) movement of an animal out of a quarantine unit within 3 days of the movement; and

(c) all movements in the holding register within 36 hours of the movement.

(7) Approval of a quarantine unit may be made subject to conditions and may be suspended, amended or revoked by notice in writing at any time by a body accredited by UKAS or by the Welsh Ministers.

(8) In this article—

"approved veterinary surgeon" ("*milfeddyg cymeradwy*") means a veterinary surgeon who is approved in accordance with article 2A of the Tuberculosis (Wales) Order 2010(**1**);

"holding register" ("*cofrestr y daliad*") means a register for the purposes of the Cattle Identification (Wales) Regulations 2007(**2**) or the Sheep and Goats (Records, Identification and Movement) (Wales) Order 2015(**3**);

(**1**) O.S. 2007/842 (Cy. 74).
(**2**) O.S. 2015/1992 (Cy. 302).

(**1**) S.I. 2010/1379 (W. 122) as amended by S.I. 2014/632 (W. 72).
(**2**) S.I. 2007/842 (W. 74).
(**3**) S.I. 2015/1992 (W. 302).

ystyr "milfeddyg cymeradwy" ("*approved veterinary surgeon*") yw milfeddyg sydd wedi ei gymeradwyo yn unol ag erthygl 2A o Orchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010(**1**);

ystyr "prawf croen" ("*skin test*") yw prawf twbercwlin serfigol cymharol mewngroenol sengl ar gyfer twbercwlosis gan ddefnyddio twbercwlin buchol ac adarol;

ystyr "prawf perthnasol" ("*relevant test*") yw—

(a) prawf croen; neu

(b) unrhyw brawf diagnostig arall ar gyfer twbercwlosis a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru; ac

ystyr "twbercwlosis" ("*tuberculosis*") yw heintiad â *Mycobacterium bovis* (*M.bovis*)."

"record" ("*cofnodi*") means notifying or reporting the movement of an animal in accordance with the Cattle Identification (Wales) Regulations 2007 or the Sheep and Goats (Records, Identification and Movement) (Wales) Order 2015;

"relevant test" ("*prawf perthnasol*") means—

(a) a skin test; or

(b) any other diagnostic test for tuberculosis approved by the Welsh Ministers;

"skin test" ("*prawf croen*") means a single intradermal comparative cervical tuberculin test for tuberculosis using bovine and avian tuberculin; and

"tuberculosis" ("*twbercwlosis*") means infection with *Mycobacterium bovis* (*M.bovis*)."

6. Hepgorer erthygl 15 (trwyddedau cyffredinol).

7. Ar ôl erthygl 15 mewnosoder—

"**Dogfennau symud ceirw**

15A. Pan symudir ceirw o dan drwydded gyffredinol, a bod y drwydded honno'n ei gwneud yn ofynnol bod gan y person sy'n symud y ceirw ddogfen symud, rhaid i feddiannydd y safle y symudir hwy iddo—

(a) cydymffurfio ag amodau'r drwydded sy'n ymwneud ag adrodd gwybodaeth am symudiad; a

(b) cadw copi wedi ei lenwi o'r ddogfen symudiad am chwe mis ac yn ystod y cyfnod hwnnw ei ddangos i arolygydd os gofynnir am ei weld."

8. Mae Atodlenni 1 a 2 wedi eu diwygio yn unol â'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

6. Omit article 15 (general licences).

7. After article 15 insert—

"**Movement documents for deer**

15A. Where deer are moved under a general licence, and that licence requires the person moving the deer to have a movement document, the occupier of premises which they are moved on to must—

(a) comply with the conditions of the licence relating to the reporting of movement information; and

(b) keep a copy of the completed movement document for six months and during that period produce it to an inspector on request."

8. Schedules 1 and 2 are amended in accordance with the Schedule to this Order.

Lesley Griffiths

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
31 Mai 2017

Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs, one of the Welsh Ministers
31 May 2017

(**1**) O.S. 2010/1379 (Cy. 122) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2014/632 (Cy. 72).

YR ATODLEN Erthygl 8

Diwygio Atodlenni 1 a 2 i Orchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003

Diwygio Atodlen 1 (Symudiadau oddi ar safleoedd a ganiateir yn ystod y cyfnod segur)

1.—(1) Mae Atodlen 1 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 5, yn lle "gwartheg neu foch" rhodder "moch".

(3) Hepgorer paragraff 6.

(4) Ym mharagraff 7, yn lle "reoliad 12(2) o Reoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Lloegr a Chymru) 2000" rhodder "Ran 1 o Atodlen 2 i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011"(**1**).

(5) Ym mharagraff 10(1), yn lle "erthygl 8(3)(b) o Orchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002" rhodder "erthygl 21 o Orchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2011"(**2**).

(6) Hepgorer paragraff 12.

(7) Yn lle paragraff 13 rhodder—

> **"Symud gwartheg, defaid a geifr i sioeau ac arddangosfeydd**
>
> **13.** Symud gwartheg, defaid a geifr i sioeau ac arddangosfeydd ar yr amod eu bod wedi eu cadw mewn uned gwarantin os ydynt wedi symud o sioe neu arddangosfa arall yn y 6 diwrnod diwethaf ac nad ydynt wedi ymadael â'r uned gwarantin honno ers pan aed â hwy yno."

Diwygio Atodlen 2 (Symudiadau i safleoedd nad ydynt yn sbarduno'r cyfnod segur)

2.—(1) Mae Atodlen 2 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Cyn paragraff 1 mewnosoder—

> **"Symud gwartheg, defaid a geifr**
>
> **Z1.** Gwartheg, defaid a geifr sy'n cyrraedd y safle ar yr amod y cânt eu cadw mewn uned gwarantin am 6 diwrnod ar ôl iddynt gyrraedd."

(**1**) O.S. 2011/2379 (Cy. 252).
(**2**) O.S. 2011/2830 (Cy. 303).

SCHEDULE Article 8

Amendment of Schedules 1 and 2 to the Disease Control (Wales) Order 2003

Amendment of Schedule 1 (Movements off premises which are permitted during the standstill period)

1.—(1) Schedule 1 is amended as follows.

(2) In paragraph 5 omit "cattle or".

(3) Omit paragraph 6.

(4) In paragraph 7, for "regulation 12(2) of the Animal and Animal Products (Import and Export) (England and Wales) Regulations 2000" substitute "Part 1 of Schedule 2 to the Trade in Animals and Related Products (Wales) Regulations 2011"(**1**).

(5) In paragraph 10(1), for "article 8(3)(b) of the Pigs (Records, Identification and Movement) (Interim Measures) (Wales) (No. 2) Order 2002" substitute "article 21 of the Pigs (Records, Identification and Movement) (Wales) Order 2011"(**2**).

(6) Omit paragraph 12.

(7) For paragraph 13 substitute—

> **"Movement of cattle, sheep and goats to shows and exhibitions**
>
> **13.** The movement of cattle, sheep and goats to shows and exhibitions provided where they have moved from another show or exhibition within the last 6 days they have been held in a quarantine unit and have not left that quarantine unit since being taken into it."

Amendment of Schedule 2 (Movements on to premises that do not trigger the standstill period)

2.—(1) Schedule 2 is amended as follows.

(2) Before paragraph 1 insert—

> **"Movement of cattle, sheep and goats**
>
> **Z1.** Arrival of cattle, sheep and goats on to the premises provided they are quarantined for 6 days after their arrival in a quarantine unit."

(**1**) S.I. 2011/2379 (W. 252).
(**2**) S.I. 2011/2830 (W. 303).

(3) Yn y pennawd cyn paragraff 1 yn lle "Orchymyn Cynulliadau Anifeiliaid (Cymru) 2003", ac ym mharagraff 1, yn lle "Orchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Cymru) 2003" rhodder "Orchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Cymru) 2010"(**1**).

(4) Yn y pennawd cyn paragraff 3, yn lle "Orchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002" rhodder "Orchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2011".

(5) Ym mharagraff 3, yn lle "erthygl 8(3)(b) o Orchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002" rhodder "erthygl 21 o Orchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2011".

(6) Ym mharagraff 4—

(a) yn is-baragraffau (1) a (2), yn lle "erthygl 8(3)(b) o Orchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002" rhodder "erthygl 21 o Orchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2011";

(b) yn is-baragraff (1)(d), yn lle "llofnodi datganiad yn dweud y bwriedir defnyddio'r mochyn i fagu ar y safle hwnnw a'i fod yn anfon y datganiad i'r awdurdod lleol yn ddi-oed" rhodder "cyflwyno, yn unol â thelerau'r drwydded y caiff y mochyn ei symud oddi tani, ac yn ddi-oed, ddatganiad yn dweud y bwriedir defnyddio'r mochyn ar gyfer bridio ar y safle hwnnw"; ac

(c) yn is-baragraff (2)(b)—

(i) yn lle "anfon y" rhowch "cyflwyno'r", a

(ii) hepgorer "uchod at yr awdurdod lleol".

(7) Yn lle paragraff 5 rhodder—

"Dychwelyd moch, gwartheg, defaid neu eifr o sioe neu arddangosfa

5.—(1) Dychwelyd gwartheg, defaid neu eifr o sioe neu arddangosfa i'r safle y traddodwyd hwy ohono i'r sioe neu'r arddangosfa honno ar yr amod bod yr anifeiliaid yn cael eu cadw mewn uned gwarantin am 6 diwrnod ar ôl iddynt ddychwelyd.

(**1**) O.S. 2010/900 (Cy. 93).

(3) In the heading before paragraph 1 and in paragraph 1, for "the Animal Gatherings (Wales) Order 2003" substitute "the Animal Gatherings (Wales) Order 2010"(**1**).

(4) In the heading before paragraph 3, for "the Pigs (Records, Identification and Movement) (Interim Measures) (Wales) (No. 2) Order 2002" substitute "the Pigs (Records, Identification and Movement) (Wales) Order 2011".

(5) In paragraph 3, for "article 8(3)(b) of the Pigs (Records, Identification and Movement) (Interim Measures) (Wales) (No. 2) Order 2002" substitute "article 21 of the Pigs (Records, Identification and Movement) (Wales) Order 2011".

(6) In paragraph 4—

(a) in sub-paragraphs (1) and (2), for "article 8(3)(b) of the Pigs (Records, Identification and Movement) (Interim Measures) (Wales) (No. 2) Order 2002" substitute "article 21 of the Pigs (Records, Identification and Movement) (Wales) Order 2011";

(b) in sub-paragraph (1)(e), for "signs and sends to the local authority", substitute "submits, in accordance with the terms of the licence under which the pig is moved, and"; and

(c) in sub-paragraph (2)(b)—

(i) for "sent" substitute "submitted"; and

(ii) omit "above to the local authority".

(7) For paragraph 5 substitute—

"Return of pigs, cattle, sheep or goats from a show or exhibition

5.—(1) The return of cattle, sheep or goats from a show or exhibition to the premises from which they were consigned to that show or exhibition provided that the animals are quarantined for 6 days after their return in a quarantine unit.

(**1**) S.I. 2010/900 (W. 93).

(2) Dychwelyd moch o sioe neu arddangosfa i'r safle y traddodwyd hwy ohono i'r sioe neu'r arddangosfa honno ar yr amod bod yr anifeiliaid yn cael eu hynysu mewn cyfleuster sydd wedi ei gymeradwyo i'r pwrpas gan arolygydd milfeddygol am 20 diwrnod ar ôl iddynt ddychwelyd."

(8) Hepgorer paragraff 6.

(9) Hepgorer paragraff 7.

(10) Hepgorer paragraff 8.

(11) Yn lle paragraff 9 rhodder—

"**9.** Gwartheg, defaid neu eifr sy'n cyrraedd yn ôl o ganolfan ffrwythloni artiffisial ar yr amod eu bod yn cael eu cadw mewn uned gwarantin am 6 diwrnod ar ôl iddynt ddychwelyd."

(12) Hepgorer paragraff 11.

(13) Yn lle paragraff 15 rhodder—

"Cyrraedd ar ôl triniaeth filfeddygol, etc.

15. Defaid, geifr, gwartheg neu foch sy'n cyrraedd yn ôl i'r safle hwnnw o fan lle y rhoddir triniaeth filfeddygol neu unrhyw epil y maent wedi esgor arnynt tra'r oeddent yno ar yr amod—

(a) yn achos moch, eu bod wedi eu hynysu oddi wrth bob anifail arall am 20 diwrnod ar ôl iddynt ddychwelyd; a

(b) yn achos defaid, geifr a gwartheg, pan gafodd yr anifeiliaid hynny eu cadw mewn uned gwarantin cyn eu symud i fan lle y rhoddir triniaeth filfeddygol, eu bod yn cael eu cadw mewn uned gwarantin am 6 diwrnod ar ôl iddynt ddychwelyd minws nifer y diwrnodau y cadwyd yr anifail mewn uned gwarantin cyn ei symud i gael triniaeth."

(2) The return of pigs from a show or exhibition to the premises from which they were consigned to that show or exhibition provided that the animals are isolated for 20 days after their return in a facility approved for this purpose by a veterinary inspector."

(8) Omit paragraph 6.

(9) Omit paragraph 7.

(10) Omit paragraph 8.

(11) For paragraph 9 substitute—

"**9.** Arrival of cattle, sheep or goats which are being returned from an artificial insemination centre provided that they are quarantined for 6 days after their return in a quarantine unit."

(12) Omit paragraph 11.

(13) For paragraph 15 substitute—

"Arrival from veterinary treatment, etc.

15. The arrival of sheep, goats, cattle or pigs being returned to those premises from a place for veterinary treatment or of any offspring to which they have given birth while there provided that—

(a) in the case of pigs, they are isolated from all other animals for 20 days following their return; and

(b) in the case of sheep, goats and cattle, where those animals were held in a quarantine unit prior to movement to a place for veterinary treatment, they are quarantined for 6 days after their return in a quarantine unit less the number of days the animal was quarantined prior to movement for treatment."

©℗Hawlfraint y Goron 2017

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2017

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£6.00

W201706067 06/2017

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2017/674

ISBN 978-0-348-20122-2

9 780348 201222